Rheoli ar gyfer cynaliadwyedd T867

Patrwm cyflwyno *O fis Mai i fis Hydref*
O fis Tachwedd i fis Ebrill

Disgrifiad o'r modiwl

Bydd y modiwl hwn yn gwella dealltwriaeth myfyrwyr o gyflawni a chefnogi gwaith rheoli cynaliadwy. Byddant yn datblygu safbwynt amlddisgyblaethol ar reoli adnoddau, cynaliadwyedd ac iechyd a diogelwch a fydd yn ymgorffori prosesau rheoli strategaeth, polisi, casglu data a gwybodaeth. Bydd yn eu cyflwyno i ddull systemig ar gyfer astudio gweithrediadau a dulliau sefydliadol ar gyfer mesur y defnydd a wneir o adnoddau ac egni a gwneud y gorau o hynny wrth ddefnyddio adnoddau i leihau risg amgylcheddol, gymdeithasol ac ariannol. Byddant hefyd yn dysgu sut i helpu eu sefydliad i ymgorffori materion cynaliadwyedd yn fwy effeithlon ac effeithiol a nodi tueddiadau ar gyfer y dyfodol a ffactorau a fydd yn ysgogi newid yn y maes hwn.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â manyleb gyffredinol y person ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn maes pwnc perthnasol, e.e. rheoli amgylcheddol, cynaliadwyedd, peirianneg amgylcheddol neu faes tebyg
- dealltwriaeth ddamcaniaethol gadarn o'r materion allweddol ym maes cynaliadwyedd
- profiad helaeth o ddull rhyngddisgyblaethol mewn perthynas â'r amgylchedd ac iechyd a diogelwch
- rhywfaint o brofiad ymarferol o archwilio ac asesu mewn cyd-destun amgylcheddol a/neu iechyd a diogelwch
- dull brwdfrydig o ymgysylltu â myfyrwyr mewn amrywiaeth o gyfryngau, yn cynnwys cynadledda e-fwrdd gwaith
- rhywfaint o brofiad o helpu myfyrwyr drwy ddarn o waith estynedig ac i ysgrifennu adroddiad ar brosiect.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- cymhwyster ôl-raddedig neu gymhwyster cyfatebol mewn maes pwnc perthnasol
- profiad o achredu megis ISO14001
- profiad o weithio mewn materion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol mewn amrywiaeth o sefydliadau
- profiad o adnoddau rheoli, yn cynnwys trin data sy'n berthnasol i gynaliadwyedd, a'r gallu i helpu myfyrwyr i ddatblygu neu wella eu sgiliau rhifedd.

Manylion y modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	4
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	6